



Plaid Cymru Gwynedd Maldwyn

 Plaid Cymru

Siân Gwenllïan
Mabon ap Gwynfor
Beca Brown
Elwyn Vaughan

Hydref 2026

Hyrwyddir gan:
Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE, Gwynedd.

ASau Plaid Cymru Gwynedd Maldwyn


Siân Gwenllian, Mabon ap Gwynfor, Beca Brown, Elwyn Vaughan

Croeso i Gynhadledd Flynyddol Plaid Cymru. Â ninnau daflriad carreg o Wynedd Maldwyn, dyma rannu diweddariad byr o'n gwaith diweddar. Mae 2026 wedi bod yn flwyddyn brysur a chyffrous. Gweithiodd ein tîm lleol yn hynod galed, a ni oedd yr unig blaidd yng Nghymru gyfan i ennill pedair sedd mewn un etholaeth. Rydym hefyd yn falch bod dau o'n ASau yn y Cabinet.

Er gwaethaf ein cyfrifoldebau cenedlaethol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar faterion lleol, ac mae'r map isod yn dangos hyd a lled ein hymweliadau etholaeth ers mis Mai.

Rydym hefyd wedi wynebu heriau, gyda'r Rhinogydd ymhlith yr ardaloedd a gafodd eu heffeithio waethaf gan danau gwyllt yr haf. Roeddem yn falch o'r cyfle i ddiolch yn bersonol i'r diffoddwyr tân; ymwelodd Mabon â Gorsaf Dân Dolgellau, bu Beca yng Ngorsaf Dân Harlech, a bu Siân ar y Rhinogydd yn cwrdd â'r tîm. Mae Beca hefyd yn cefnogi'r ymgyrch leol yn erbyn y ganolfan ddata arfaethedig ar lannau'r Fenai.

Ymweliadau ers yr etholiad



Plaid Cymru

Siân Gwenllian

- Cynhaliais fy nghymhorthfa gyntaf ers yr etholiad **ym Mhwlheli**.
- Dwi wedi cyhoeddi nifer o bolisiâu cyffrous yn rhan o fy mhortffolio yn cynnwys buddsoddiad mewn **tai cymdeithasol**, lansio **Tasglu Canol Trefi Cymru** (ym Mangor), a **£17m i uwchraddio cartrefi ledled Cymru** i'w gwneud yn fwy ynni effeithlon.
- Roedd yn ffrainc bersonol gen i roi teyrnged i fy niweddar etholwr, **Robin Evans**, ar lawr y Senedd – cerddor, cynhyrchydd, a Chymro i'r carn.

Mabon ap Gwynfor

- Ymunais â chriw **Park Run y Bala** i lansio menter **5K Your Way** i gefnogi pobl sy'n byw gyda chanser a'u teuluoedd.
- Dwi wedi cyhoeddi bwriad i ddatblygu **Strategaeth Ganser ddeng mlynedd** er mwyn gwella diagnosis, triniaeth, a gofal i gleifion a'u teuluoedd.
- Dwi wedi cyhoeddi diwygiadau i Wasanaeth Iechyd Cymru er mwyn cyflymu diagnosis a thriniaeth, lleihau rhestrau aros a chynyddu capasiti llawfeddygol.

Beca Brown

- Dwi wedi arwain dadl yn y Senedd ar **drawma a phrofiadau niweidiol plentyndod**.
- Ymunais â chynlluniau amgylcheddol lleol fel y **Big Wyddfa Clean Up** a **Phrosiect Morwellt Porthdinllaen**.
- Mynychais **Pride Gogledd Cymru** ac ymwelais â **Chlwb Ieuenctid LGBTQ+ Gisda** yng Nghaernarfon i ddangos undod â'r gymuned.
- Treuliais diwrnod yn **Bermo** yn ymweld â busnesau er mwyn trafod eu hanghenion.

Elwyn Vaughan

- Cefais fy ethol yn Gadeirydd **Pwyllgor Economi, Ynni a Chysylltedd** y Senedd.
- Dwi wedi codi nifer o achosion lleol pwysig yn y Senedd – gan gynnwys **gofal iechyd ym Mhowys**, gwaddol llygredd amgylcheddol yn ardal **Wrecsam a'r Waun**, a'r angen i gryfhau Addysg Cyfrwng Cymraeg.
- Dwi'n croesawu camau cadarnhaol gan y Llywodraeth newydd ym meysydd trafnidiaeth gyhoeddus, amaethyddiaeth a chymunedau.
- Dwi wedi sefydlu Swyddfa Etholaethol yn y **Drenwydd**.